

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod o'r **Is-bwyllgor Cyllid, Polisi, Rheolaethol** a gynhaliwyd ar **nos Fawrth, 24 Tachwedd 2020 am 7.00 o'r gloch**. Cynhaliwyd y cyfarfod o bell gan ddefnyddio technoleg fideo.

1-11/20 Presennol

Cadeirydd Cyng. Robert Cadwalader;
Cyng. Angela Hughes; Cyng. Sian Williams, Cyng. Dr Peter Harlech Jones
Clerc – Dr Catrin Jones

2-11/20 Ymddiheuriadau

Cyng. Robert Price; Cyng. Phil Jones

3-11/20 Datgan diddordeb

Ni wnaeth neb ddatgan diddordeb

4-11/20 Cofnodion cyfarfod Is-grŵp Cyllid, Polisi, Rheolaethol 27 Tachwedd 2019

Llofnodwyd y cofnodion fel record gywir

5-11/20 Materion yn codi ar y cofnodion

Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion

6-11/20 Adroddiad Cyllid 2020-2021

Roedd y daenlen ar gyfer y sefyllfa ariannol i fyny at ddiwedd Hydref 2020 wedi ei gylchredeg . Nodwyd bod £9,721.39 wedi'i wario o'r gyllideb fyny at ddiwedd Hydref (gan gynnwys TAW) , a bod costau Tachwedd eto i ymddangos ar y cyfrifon. Byddai modd cael ad-daliad o'r TAW.
Gwariant mawr i ddod cyn diwedd y flwyddyn ariannol: i gynnwys £6,000 a £5,000 torri gwair. Byddai ystyriaeth o gyfraniadau ar gyfer elusennau a'r Neuadd Goffa i ddod ym Mis Ionawr 2021. Hefyd costau safle We newydd, prosiect cymunedol newydd, cyflog a chostau'r Clerc a'r goleuadau Nadolig.

Nodwyd y ffigwr o £59,257.51 yn y cyfrif "Community Account" a £30,524.24 yn y cyfrif cefn 'Money Manager'. Bydd adroddiad cyllid yn mynd i'r Cyngor ym Mis Ionawr i nodi gwariant fyny at ddiwedd mis Rhagfyr 2020.

Penderfyniad Derbyn yr adroddiad. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

7-11/20 Offer swyddfa - lap top newydd

Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod y lap top wedi mynd yn araf iawn a bod angen ystyried buddsoddi mewn un newydd. Byddai angen trefniant i help technegol i drosglwyddo gwybodaeth o'r lap top cyfredol i un newydd.

Penderfyniad

I argymhell i'r Cyngor Tref y dylid prynu lap top newydd. Bydd y Clerc yn cyflwyno cost ar gyfer lap top newydd, i gynnwys cyflenwyr posib lleol.

8-11/20 Cyllideb 2021-22

Trafodwyd y materion canlynol ar gyfer gosod cyllideb ddrafft 2021-22 gan gynnwys gosod lefel y praesept ar gyfer y flwyddyn honno:

a. **Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol aelodau Cyngorau Cymuned a Thref**

- Roedd yn rhaid i Gyngorau rhoi taliad yn ôl o'r costau gofal ar gyfer plant ac oedolion sy'n ddibynnol er mwyn caniatáu aelodau ymgymryd â'i dyletswyddau a hefyd lwfans o £150 yr aelod (does dim rhai i gynghorwyr dderbyn y tal).
Costau Cynghorwyr - ar gyfer adroddiad lwfansau uchod £150 yr aelod = 12 x £150 = £1800
Argymhelliad: Os na fydd aelod yn hysbysu'r swyddog priodol yn ysgrifenedig nad ydynt am ei gymryd i dalu'r £150 i aelodau tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- Cronfa Cadeirydd Cyngor Tref Criccieth
Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn rhoi- £200 y Flwyddyn i Gronfa'r Cadeirydd a chostau treuliau teithio/parcio. Roedd hawl gan y Cyngor dalu fyny at £500 yr un i hyd at 5 person am swyddogaethau penodedig. Mae hyn yn ogystal â'r £150 ar gyfer costau.
Pennwyd lefel taliadau ar gyfer lwfans teithio ac aros dros nos a hefyd colled ariannol oherwydd mynychu dyletswyddau.
Penderfyniad: i barhau i dalu £200 i gronfa'r Cadeirydd ac i ad-dalu lwfans teithio ac aros dros nos a nodwyd yn yr adroddiad a hefyd colled ariannol oherwydd mynychu dyletswyddau i Gyngorwyr lle mae colled o'r fath wedi ei hysgwyddo mewn gwirionedd o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswydd gymeradwy.
- Costau cyfieithu
Penderfyniad: £3K
- Yswiriant
Penderfyniad: £2k
- Costau rhedeg toiledau cyhoeddus Criccieth £6k
Penderfyniad i barhau i dalu'r cyfraniad at gostau rhedeg y toiledau cyhoeddus i Gyngor Gwynedd yn 2021/22.
- Costau torri gwair £5k
Penderfyniad: i barhau i dalu'r cyfraniad at doriadau gwair ychwanegol i Gyngor Gwynedd
- Cyllideb ar gyfer cynllun Cymunedol
Roedd y Cyngor wedi neilltuo swm ar gyfer y Cynllun Cymunedol – roedd yn debygol na fyddai wedi gwario hwn eleni – felly byddai angen cario swm sydd heb ei wario drosto i 2021/22 – edrych yn debygol y bydd £14k ar gael.
Argymhelliad: £14K
- Goleuadau Nadolig
Argymhelliad
Y dylid neilltuo £5,000 at gostau'r goleuadau ar gyfer 2021-22.
- Gwariant o dan 137(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol sy'n caniatáu gwariant ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch a hefyd at ddibenion elusennol. Ni does ffigurau wedi dod i law eto ar gyfer hyn.
Argymhelliad - i neilltuo swm o £5k i'r Neuadd Goffa (o dan bŵer S145) ac i ychwanegu £5k ar gyfer elusennau eraill o dan y swm a ganiateir gan 137(4).
Argymhelliad : I gymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22.
- Roedd angen penderfynu ar y praesept ar gyfer 2021-22. Roedd e-bost wedi dod gan Gyngor Gwynedd ar 21/11 yn gofyn am fanylion erbyn 27 Ionawr 2021 - - Sylfaen Drethiannol Criccieth yw

£931.77. Os bwriedir casglu a hawlio praesept o £1,000 byddai hynny yn golygu cost o £1.07 o Dreth Cyngor Band D ar gyfer y gymuned yma (h.y. £1,000/931.77) Felly, am bob £1,000 o gynnydd byddai'n costio tai ym Mand D £1.07 ychwanegol.

Argymhelliad – Ar sail y drafodaeth ar gyfer y gyllideb ddrafft nid oedd aelodau yn gweld achos i godi lefel y praesept yn 2021-22, ac o ystyried hefyd canlyniadau economaidd y pandemic, y dylid cadw at y praesept cyfredol o £42,000 ac i drafod y drafft gyllideb (gweler atodiad 1) yng nghyfarfod y Cyngor Tref ym mis Rhagfyr. Nodwyd nad oedd lefel y praesept yn ddigonol bellach ar gyfer costau blynyddol y Cyngor Tref, ac roedd y gyllideb yn ddibynnol ddefnydd o'r arian wrth gefn.

9-11/20 Grant i wella amgylchedd ffisegol ein trefi

Roedd e-bost am fanylion am gronfa sydd ar gael i wella ansawdd ffisegol trefi - rwyf wedi siarad gyda'r Swyddog i esbonio na fydd cyfarfod o'r Cyngor Tref tan 15 Rhagfyr, ac wedi cyfeirio at nifer o bethau sydd ar restr y Cyngor Tref yn barod medrwn gynnwys fel cais.

Argymhelliad i gynnwys y canlynol:

- tirweddu: gwella gwaelod y Maes a chreu "piazza" - gofod deniadol a ddiogel i'r cyhoedd a fyddai'n helpu'r Stryd Fawr a hefyd gofod cymdeithasol ger y Swyddfa Bost i gynnwys man welliannau amgylcheddol. Mae angen sylw dirfawr ar yr ardal ar waelod y Maes ger y coed eucalyptus gan nad yw'r wyneb presennol yn ddiogel i gerdded arno - mae adroddiad wedi ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd yn dilyn damwain ddiweddar. Byddai llecynnau o'r fath yn creu gofodau i gymdeithasu yn y dref, ychydig i ffwrdd o'r traffig trwm sydd ar y Stryd Fawr ac yn gwneud hi'n brofiad mwy plaserus i siopwyr yn y dref. Gwahodd y Cyng. Ffion Gwyn i greu cynllun.
- byrddau gwybodaeth o gwmpas y dref o fap newydd Criccieth ac arwyddion treftadaeth eraill.
- biniau ail gylchu - tebyg i drefn y Bermo. Mae cais eisoes wedi ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd.
- meinciau newydd o gwmpas y dref.
- marchnadoedd achlysurol cynnyrch lleol artisan - byddai angen trafodaeth gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer cyfrifoldebau trefnu hyn
- Wifi i'r dref (mae'n debyg bod yna gronfa arall ar gyfer hyn). Mae hwn ar restr y Cyngor Tref ac wedi ei fabwysiadu fel rhan o'r Cynllun Cymunedol.

Roedd Swyddog Gwynedd wedi cadarnhau ei bod yn barod i ymestyn y dyddiad ymateb yn derfynol ar ôl cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar 15/12.

Penderynfyniad

I roi gerbron y Cyngor Tref yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

10-11/20 Dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor Cyllid, Polisi, Rheolaethol

Dyddiad i'w drefnu eto

Atodiad 1 Drafft Cyllideb 2021/2022

Incwm

Praesept	£42,000
Arall (trosglwyddiad o arian wrth gefn)	£21,310
Cyfanswm	£63,310

Gwariant

Cyflog	£9,950
Cyfieithu	£3,000
Yswiriant	£2,000
Cynnal llwybrau	£600
Torri Gwair	£5,000
Rhent stafell	£1,000
Stampiau	£150
Costau swyddfa	£150
Aelodaeth	£400
Cyfrifon (archwilio)£800
Cyrsiau£700
Nadolig	£5,000
Sul y Cofio£25
Deddf data£35
Costau Clerc swyddfa£1,000
Costau Clerc teithio£500
Toiledau	£6,000
Manion/arall	£3,000
Cyfraniad Neuadd Goffa	£5,000
Cyfraniadau eraill	£5,000
Prosiectau	£14,000

CYFANSWM CYLLIDEB **£63,310**
